# Sesiwn Gwrandawiad 8

# YNNI ADNEWYDDADWY

## 9.30 yb, Dydd Iau 15 Medi 2016

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd
Gwynedd a Môn

Cynhyrchwyd y Datganiad hwn gan Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd i nodi eu hymateb i'r materion a'r pynciau a godwyd gan yr Arolygydd ar gyfer y Gwrandawiad am Ynni Adnewyddadwy yng Nghynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn.

Mae'r Datganiad hwn yn ymwneud ag elfennau o'r Cynllun a godwyd gan yr Arolygydd fel materion i'w trafod. Lle bo'n briodol mae'r Datganiad yn edrych ar ac yn croesgyfeirio at y prif ffynonellau o wybodaeth a ddefnyddiwyd i baratoi'r Cynllun megis canlyniadau ymgynghoriad cyhoeddus, yr Asesiad Cynaliadwyedd, y dogfennau cefndir a Phapurau Testun ategol. Rhoddir rhifau cyfeirnod y dogfennau lle y bo'n briodol.

At ddibenion eglurder o fewn y datganiad hwn mae unrhyw Newidiadau Materion sy'n Codi i'r Cynllun Adnau a/neu Newid â Ffocws i'r Cynllun, wedi'i ddangos mewn print trwm **Coch** ac wedi'i thanlinellu. Dangosir unrhyw Newid â Ffocws i'r Cynllun Adnau mewn print **Trwm** wedi'i danlinellu.

**Sesiwn Gwrandawiad 8**

**YNNI ADNEWYDDADWY**

**9.30 yb, Dydd Iau 15 Medi 2016**

**Agenda Materion a Phynciau**

## 1 Cyflwyniad

## 2 Materion Gweithdrefnol

## 3 A yw polisïau ADN1 ac ADN2 yn darparu mesurau diogelu priodol i warchod tirwedd yr ardaloedd?

3.1 **Ymateb -** Ydy. Mae Polisi ADN1 o ran datblygu ynni gwynt ar y tir yn cyfeirio at raddfa'r datblygiad yr ystyrir yn briodol ac mae meini prawf 2 a 3 yn cyfeirio at ddynodiadau tirwedd ble y byddai datblygiadau ar raddfa ddomestig yn unig yn gallu cael eu cefnogi. Seilir hyn ar yr Astudiaeth Capasiti a Sensitifrwydd y Dirwedd (DC.020) sy'n arfarnu maint datblygiad ar gyfer tyrbinau gwynt ar y tir a chynigion o ran ynni PV solar mewn caeau y gellid eu gosod mewn gwahanol Ardaloedd Cymeriad y Tirlun (ACT). Mae maen prawf (i) yn egluro na ddylai unrhyw ddatblygiad gael effaith andwyol annerbyniol ar gymeriad y dirwedd.

3.2 Yn ogystal, nodir ym mharagraff olaf Polisi ADN2 na ddylai cynigion beri difrod annerbyniol i'r dirwedd.

3.3. Dylai'r Cynllun gael ei ddarllen yn ei gyfanrwydd ac felly byddai Polisïau ym Mhennod 7.5 'Rheoli Twf a Datblygiad - yr Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig', yn berthnasol hefyd. Mae’r Cynghorau’n bwriadu cynhyrchu Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) yn ymwneud â 'Lleoli datblygiadau ynni adnewyddadwy unigol' a bydd hwn yn cyfeirio at faterion allweddol a chyfyngiadau o fewn Ardal y Cynllun gan gynnwys dynodiadau amgylcheddol. Mae'r amserlen a ragdybir ar gyfer cynhyrchu'r CCA ar hyn o bryd wedi'i sefydlu yn "Sgôp y Canllaw Cynllunio Atodol ac amserlen paratoi drafft" (Mehefin 2016) (DA.010b).

3.4 Felly, mae'r Cynghorau o'r farn bod dulliau diogelwch priodol yn eu lle i ddiogelu tirwedd yr ardal drwy rwystro ardrawiad annerbyniol ar gymeriad y dirwedd mewn unrhyw leoliad.

## 4 A yw’r cynllun yn darparu fframwaith priodol ar gyfer gwireddu potensial yr ardal i gynhyrchu ynni adnewyddadwy (polisi PS7)?

### a A oes cyfiawnhad dros fabwysiadu’r un ymagwedd ym mholisi ADN1 i ddynodiadau tirwedd lleol (Safleoedd Tirwedd Arbennig) â dynodiadau cenedlaethol?

4.1 **Ymateb** - Comisiynodd y Cynghorau astudiaeth Adolygiad o Ardaloedd Tirweddau Arbennig Gwynedd ac Ynys Môn (2013) (DC.008) a ddilynai ganllawiau LANDMAP ac a ddefnyddiodd ddull gweithredu 4 cam, sef:

- Cam 1: Diffinio Meini Prawf Strategol - sefydlu p'un a oes angen dilys, amddiffynnol a chlir am ddynodiadau ATA yng Ngwynedd a Môn ai peidio. Diffiniodd yr astudiaeth gyfres o chwe maen prawf a ddefnyddiwyd i ddyfarnu pob ATA posib, a sicrhawyd ym mhob achos y dilynwyd proses gyson wrth ystyried yr angen am ddynodiad lleol.
- Cam 2: Sefydlu Ardaloedd Chwilio Eang - gan gynnwys cwestiynu a chyfuno sgoriau'r arfarniad o'r pum Agwedd Werthuso LANDMAP. Yng Ngwynedd, darparodd lleoliad presennol yr Ardaloedd Gwarchod y Dirwedd (AGD) fan cychwyn allweddol ar gyfer y cam hwn, ond yn ogystal, defnyddiwyd y data LANDMAP cyfredol (a thystiolaeth arall wedi'i mapio) i fireinio, a chynnig ATA newydd ble bo angen.
- Cam 3: Sefydlu Ardaloedd Tirwedd Arbennig Benodol - mireiniwyd ATA unigol ymhellach wrth gynnal gwaith desg fwy manwl ac arolwg maes. Ar gyfer pob ATA a nodwyd, drafftiwyd datganiad o angen clir a chofnodwyd unrhyw gysylltiadau/addasiadau i'r dynodiadau cyfredol (AGD Gwynedd). Ymgynghorodd UPCC â swyddogion y cyngor, y timau AHNE a Chyngor Cefn Gwlad Cymru ar yr ATA arfaethedig cyn bwrw ymlaen i'r cam nesaf.
- Cam 4: Paratoi Datganiadau o Werth ac Arwyddocâd - unwaith y cytunwyd ar yr ATA arfaethedig, aethpwyd ati i'w mapio yn GIS a darparwyd Datganiadau Gwerth ac Arwyddocâd atodol ar gyfer pob un.

4.2 Roedd hyn yn sicrhau bod y dull i ganfod yr Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATA) posib yn gadarn ac yn gwneud y defnydd gorau o'r dystiolaeth leol oedd ar gael. Diben y dynodiad ATA hwn yw sicrhau na fydd cymeriad yr ardaloedd hyn yn cael ei newid gan ddulliau datblygu amhriodol a bod nodweddion sy'n cyfrannu tuag at hynodrwydd lleol yn cael eu diogelu.

4.3 Mae Tabl 2.03 yn Astudiaeth Capasiti a Sensitifrwydd y Dirwedd (DC.020) yn cyfeirio at Feini Prawf ar gyfer Asesu'r Dirwedd a Sensitifrwydd Gweledol y Dirwedd i Ddatblygiadau Ynni Gwynt. O ran Gwerth y Dirwedd, mae'n nodi: *"...Mae gradd y sensitifrwydd yn dibynnu ar natur y cynnig a rhinweddau'r dirwedd sy'n cael eu nodi yn y dynodiad. Mae hierarchaeth y dynodiad yn dylanwadu ar sensitifrwydd tirwedd. Ystyrir bod tirweddau dynodedig rhyngwladol a chenedlaethol megis Parciau Cenedlaethol, Safleoedd Treftadaeth y Byd ac AHNE yn hynod sensitif, gyda dynodiadau rhanbarthol a lleol megis AHE a SLAau yn dilyn hyn hefyd...".* Caiff rhai dangosyddion eu nodi sy'n rhoi gwerth uchel i dirwedd Sensitif ac mae'r rhestr hon yn cynnwys Parc Cenedlaethol, AHNE, Arfordir Treftadaeth, AHNE ynghyd ag Ardaloedd Tirwedd Arbennig.

4.4. Mae canfyddiadau Astudiaeth Capasiti a Sensitifrwydd y Dirwedd mewn perthynas ag Amcanion a Chapasiti Cyffredinol yn ymdrin â'r AHNE ac ATA yn yr un modd o ran capasiti'r ardal oedd i gynnal datblygiadau.

4.5 O ganlyniad, ystyrir ei bod yn briodol rhoi'r un lefel o warchodaeth i Ardaloedd Tirwedd Arbennig fel y rhoir i ddynodiadau cenedlaethol megis Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) o ran yr ardrawiad posib ar y dirwedd o ganlyniad i ddatblygiadau ynni gwynt ar y tir.

4.6 Mae Atodlen Newidiadau â Ffocws y CDLl ar y Cyd (CDLL. 023) a gyflwynwyd dan NF35, yn ddiwygiad i feini prawf 2 a 3 ym mholisi ADN1 gan yr ychwanegir cyfeiriad at osodiad yr AHNE a'r ATA. Fodd bynnag, oherwydd y cyflwyniadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y ddogfen Newidiadau â Ffocws, mae ymateb y Cynghorau yn yr Adroddiad Sylwadau - Cyflwyniadau ynglŷn â'r Newidiadau â Ffocws (CDLl. 029),yn NF35 yn datgan y dylid dileu'r cyfeiriad at osodiad yr ATA yn y polisi. Felly, os yw'r Arolygydd o'r farn ei bod yn dderbyniol a phriodol, dymunai'r Cynghorau gynnig y dylid newid NF35 drwy ddileu'r cyfeiriad at osodiad yr ATA i dderbyn sylw drwy'r **Newidiadau Materion sy'n codi**.

POLISI ADN1: YNNI GWYNT AR Y TIR

Gwrthodir unrhyw ffermydd gwynt / ~~melinau~~ **tyrbinau** gwynt ar Raddfa Fawr neu Fawr Iawn yn ardal y cynllun.

Caniateir cynigion ~~melinau~~ **tyrbinau** gwynt eraill ar y tir yn amodol ar asesiad o'u heffeithiau amgylcheddol a chynaladwyedd:

1. Caniateir ffermydd gwynt / ~~melinau~~ **tyrbinau** gwynt ar Raddfa Ganolig ar safleoedd tir llwyd trefol / diwydiannol yn unig neu pan mae'r cynigion yn ymwneud ag ail bweru ffermydd gwynt / ~~melinau~~ **tyrbinau** gwynt presennol.
2. Caniateir cynigion ~~melinau~~ **tyrbinau** gwynt ar Raddfa Ficro a Bychan y tu allan i'r AHNE, ATA a gosodiad y**r AHNE,** ~~ATA~~ Parc Cenedlaethol a Safle Treftadaeth y Byd.
3. Yn yr AHNE, ATA a gosodiad y**r AHNE,** ~~ATA~~ Parc Cenedlaethol a Safle Treftadaeth y Byd, dim ond datblygiadau ~~melinau~~ **tyrbinau** gwynt ar Raddfa Ddomestig sy'n perthnasu'n dda gydag aneddleoedd / adeiladau presennol fydd yn cael eu caniatáu.

Dylai pob cynnig gydymffurfio gyda'r meini prawf canlynol:

i. ni fydd y cynnig yn cael effaith annerbyniol ar fwynderau gweledol neu gymeriad y dirwedd drwy: nifer, graddfa, maint, dyluniad a gosodiad ~~melinau~~ **tyrbinau** gwynt ac isadeiledd cysylltiedig yn enwedig mewn ardaloedd sydd wedi'u dynodi oherwydd eu gwerth hanesyddol neu werth y dirwedd;

ii. ni fydd y cynnig yn arwain at niwed i fioamrywiaeth yn cynnwys safleoedd a rhywogaethau wedi'u gwarchod yn statudol, yn enwedig ystlumod ac adar;

iii. ni fydd y cynnig yn arwain at niwed sylweddol i ddiogelwch neu fwynderau derbynyddion sensitif yn cynnwys **effaith gan** sŵn, taflu cysgod ac **effaith ar** iechyd cyhoeddus, ac ni fydd yn cael effaith annerbyniol ar ddiogelwch ffyrdd, rheilffyrdd nac awyrennau.

iv. ni fydd cynnig yn arwain at niwed sylweddol i fwynderau gweledol preswyl trigolion cyfagos;

v. ni fydd y cynnig yn arwain at ymyrraeth electromagnetig annerbyniol â chyfarpar cyfathrebu, systemau rheoli radar neu draffig awyr, systemau cyfathrebu'r gwasanaethau brys neu systemau telegyfathrebu eraill;

vi. ni fydd y datblygiad yn cael effeithiau cronnus annerbyniol mewn perthynas â ~~melinau~~ **tyrbinau** gwynt presennol, y rhai sydd wedi'u gweithredu a'r rhai sydd â chaniatâd, ac unrhyw nodweddion amlwg eraill yn y dirwedd;

vii. ar ddiwedd oes weithredol y cyfleuster, bydd ~~melinau~~ **tyrbinau** gwynt ac isadeiledd cysylltiedig yn cael eu tynnu i lawr a chytunir ar gynllun adfer tir ac ôl-ofal priodol.

Caiff cynnig ei ystyried fel un sy'n syrthio i'r categori sy'n cynrychioli'r math mwyaf o'r hyn y mae'n gymwys ar ei gyfer.

4.7 O ganlyniad, mae'r Cynghorau o'r farn, oherwydd y dystiolaeth gadarn a ddarparwyd i gyfiawnhau'r ardaloedd ATA a nodwyd yn y Cynllun, y dylent dderbyn yr un warchodaeth â dynodiadau cenedlaethol ar gyfer datblygiadau ynni gwynt ar y tir o fewn yr ardaloedd hyn. Y gwahaniaeth rhwng ATA a Dynodiadau Cenedlaethol yw lefel y warchodaeth a roddir i osodiad y Dynodiad Cenedlaethol.

| b | A ydy'r ymagwedd ym mholisi ADN2 i ddatblygu y tu allan i ffiniau datblygu yn addas? |
|---|---|

4.8 **Ymateb -** Rhaid ystyried hwn yng nghyd-destun y Papur Cefndir - Astudiaeth Ynni Adnewyddadwy (2016) ((DA.020) & (DA.020a to e)) ac os penderfynir ei fod yn dderbyniol ac yn briodol gan yr Arolygwr, byddai'r Cynghorau yn hoffi cynnig Polisi ADN1A yn ychwanegol, gyda'r diben o'i ddefnyddio i ymdrin â chynigion am ffermydd solar PV. (Mae Atodiad I yn cynnwys copi o'r Newidiadau Materion sy'n codi i adran Ynni Adnewyddadwy o'r Cynllun Adnau mewn perthynas â chyflwyno polisi newydd ADN1A).

4.9 O ganlyniad i hyn, ni fyddai ceisiadau am dyrbinau gwynt ar y tir a datblygiadau ffermydd ynni solar PV yn cael eu hystyried dan Bolisi ADN2. Felly, y prif fath o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy fyddai'n cael eu hystyried dan y polisi hwn fyddai biomas, trydan dŵr, pympiau gwres a gwres ac phŵer cyfunedig.

4.10 Cydnabyddir y bydd cynigion penodol a ddaw ymlaen wedi'u lleoli y tu allan i ffiniau datblygu diffiniedig. Rhaid i'r cynigion hyn gael eu cyfiawnhau'n foddhaol, er enghraifft, y rheidrwydd bod datblygiad ynni dŵr yn cael ei leoli ar gwrs dŵr. Gallai cynigion eraill hefyd gael eu cyfiawnhau megis eiddo neu strwythur sy'n bodoli sydd wedi'i leoli y tu allan i ffiniau datblygu a datblygiadau ar raddfa fechan a leolir yn agos at eiddo neu strwythurau presennol.

4.11 Ar gyfer datblygiadau ar raddfa eang yng nghefn gwlad agored, bydd angen i gynllun gynorthwyo i gyflawni targedau cynhyrchu ynni adnewyddadwy Llywodraeth Cymru, a bydd yn cael ei fesur yn erbyn yr angen i ddiogelu'r dirwedd rhag datblygiad amhriodol. Ystyrir cynlluniau o'r fath yng ngoleuni polisïau eraill a gynhwysir yn y Cynllun Adneuo, yn bennaf rhai sy'n ymwneud â'r ardrawiad ar y dirwedd a bioamrywiaeth y bwriad ac ardrawiad cronnus y gosodiadau ynni adnewyddadwy ac unrhyw ddatblygiadau eraill amlwg yn y dirwedd.

4.12 Felly, ceisia'r Polisi hwn sicrhau na fydd datblygiadau ar raddfa eang y tu allan i ffiniau datblygu h.y. yng nghefn gwlad agored, ond yn derbyn caniatâd mewn amgylchiadau eithriadol ble mae'r angen yn gorbwyso neu lle mae amgylchiadau lleoli i osod y datblygiad mewn lleoliad penodol yn gorbwyso.

4.13 Ystyria'r Cynghorau, oherwydd ansawdd uchel yr amgylchedd o fewn ardal y Cynllun, a adlewyrchir yn y nifer fawr o ddynodiadau yn yr ardal, e.e. dwy AHNE, y gosodiad ar gyfer y Parc Cenedlaethol, Arfordir Treftadaeth, Safle Treftadaeth y Byd (STB) ac Ymgeisydd Safle Treftadaeth y Byd, tirweddau hanesyddol (gweler Atodiad 7 y

Cynllun Adnau i weld rhestr gynhwysfawr), y gellir cyfiawnhau ymagwedd ragofalus er mwyn diogelu’r dirwedd rhag datblygiadau annerbyniol.

## 5 A fydd polisi CYFF4 yn effeithiol wrth ddylanwadu ar ddulliau rheoli carbon datblygiad newydd?

5.1 **Ymateb -** Bydd. Mae'r diwygiad i'r Polisi a gyflwynwyd drwy Newid â Ffocws NF32, yn cyfeirio at yr angen am asesiad ynni er mwyn adnabod yr opsiynau rheoli carbon mwyaf addas ar gyfer unrhyw ddatblygiad**.** Er mwyn sicrhau na fydd pob math o ddatblygiadau yn agored i asesiad ynni, hoffai'r Cynghorau, os penderfynir ei fod yn dderbyniol a phriodol gan yr Arolygydd, gynnig bod newid pellach i Bolisi PCYFF 4 drwy ychwanegu'r geiriad "... ble'n briodol..." yn NF32 fel y dangosir isod trwy Newidiadau Materion sy’n codi i’r Cynllun:

**Gall asesiad ynni helpu i adnabod yr opsiynau rheoli carbon mwyaf priodol ar gyfer datblygiad a ble’n briodol dylid ymgymryd ag ef cyn penderfynu ar y dull fwyaf addas i’w gymryd. Rhestrir yr opsiynau posib ar gyfer effeithlonrwydd ynni a chynhyrchiad ynni adnewyddadwy isod:**

5.2 Mae'r ddogfen Sgôp ac Amserlen Ddrafft y Canllaw Cynllunio Atodol (DA.010b) mewn perthynas â Chanllaw Cynllunio Atodol Dylunio (CCA) sy'n cael ei baratoi gan y Cynghorau i gefnogi Polisi PCYFF 4, ymysg polisïau eraill, yn cynnwys adran benodol yn ymwneud â Rheoli Carbon ac mae'n egluro pa fath penodol o wybodaeth sy'n ofynnol gan wahanol fathau/maint o ddatblygiadau er mwyn bodloni Polisi PCYFF 4.

## 6 A yw’r Cynllun yn darparu dulliau eglur a phriodol ar gyfer gweithredu a monitro’r polisïau Ynni Adnewyddadwy?

6.1 **Ymateb -** Bydd nifer y datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel a ddarparwyd yn cael eu hadolygu yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB). Mae'r AMB yn ffurfio'r waelodlin ar gyfer asesu effeithiolrwydd polisïau a chynigion y Cynllun. Bydd dangosyddion allweddol yn cael eu monitro'n agos drwy gydol cyfnod y Cynllun er mwyn sicrhau bod y strategaeth yn diwallu'r targedau disgwyliedig ac y darperir ei gynigion o fewn yr amserlenni a ragwelwyd.

6.2 Yn ogystal, bydd yr AMB yn monitro effeithiolrwydd a pha mor berthnasol yw polisïau’r Cynllun yng ngoleuni newidiadau mewn amgylchiadau. Bydd monitro yn galluogi'r Cynghorau i gofnodi'r rhesymau tu ôl i unrhyw wyriad oddi wrth y cyfraddau disgwyliedig. Petai'n ymddangos nad yw'r targedau'n cael eu cyflawni, neu fod newid sylweddol mewn amgylchiadau, byddai’n rhaid ymdrin â hynny drwy adolygiad rhannol neu adolygiad llawn.

6.3 Ym Mhennod 8 y Cynllun ceir Fframwaith Fonitro, Newidiadau â Ffocws (CDLl.023). Mewn ymateb i nodyn rhagarweiniol yr Arolygwr i'r Cynghorau ym mis Mai 2016 (DA.002), mireiniwyd cyflwyniad y Fframwaith Fonitro ac fe'i cyflwynwyd i'w Harholi (DA.0010c). Mae'r Cynghorau'n barod i wneud newidiadau ychwanegol angenrheidiol i'r Fframwaith er mwyn sicrhau ei fod bob amser yn darparu'r proses gorau posib i fonitro effeithiolrwydd y Cynllun, gan ymgorffori ymrwymiad i weithredu os na ddaw

datblygiad ymlaen fel y disgwylir ac adnabod mesurau i'w gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw newidiadau.

## 7 Unrhyw faterion eraill

## Atodiad I - Newidiadau i'r Adran Technoleg Ynni Adnewyddadwy yn y Cynllun Adnau

Yn wyneb canfyddiadau'r Astudiaeth ar Asesiad o'r Potensial am ffermydd PV solar mewn ardaloedd Cynllunio yng Ngwynedd ac Ynys Môn, mae'r atodiad hwn yn amlinellu'r addasiad a awgrymwyd gan y Cynghorau ar gyfer adran Technoleg Ynni Adnewyddadwy yn y Cynllun Adnau (dengys yr addasiadau ychwanegol hyn mewn **COCH** yn y tabl a ganlyn).

| Rhan Berthnasol y Cynllun Adnau | Addasiad a Awgrymir | Dengys yr Addasiad mewn Coch |
|---|---|---|
| Paragraff 7.2.24 | Addasu'r geiriad a ddefnyddir dan newid â ffocws NF33 i adlewyrchu canfyddiadau astudiaethau ffermydd PV solar a datblygiadau ffermydd gwynt er mwyn dyrannu ardaloedd chwilio. | **Dileu'r geiriad ychwanegol a ddefnyddir yn NF33:**<br>**~~Yn Medi 2015 fe ddaru Lywodraeth Cymru gyflwyno diweddariad i 'arweiniad Ymarferol: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel - Llawlyfr i Gynllunwyr'. Mae'r llawlyfr yn cynnwys adran ar sut i asesu'r potensial ar gyfer datblygu ffermydd solar. Hefyd mae'n rhoi cyngor ynghylch troi'r asesiadau ynni adnewyddadwy yn bolisïau. Cafwyd llythyr dyddiedig y 10 Rhagfyr 2015 gan Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol yn datgan ei ddisgwyliad ar gyfer polisïau ynni mewn CDLl. Mae'n disgwyl dynodiadau neu adnabod ardaloedd chwilio ar raddfa awdurdod lleol (5MW i 25MW) ar gyfer ynni adnewyddadwy neu dechnolegau carbon isel. Yng ngoleuni hyn mae'r Cynghorau wedi comisiynu gwaith ychwanegol i ganfod unrhyw ardaloedd posib ar gyfer datblygiadau ffermydd solar. Yn ogystal bydd asesiad yn erbyn Astudiaeth Asesiad Sensitifrwydd a Chapasiti Tirweddau yn canfod os oes unrhyw ardal graddfa awdurdod lleol y dylid ei adnabod o fewn y Cynllun.~~**<br><br>**Ei ddisodli gyda'r testun isod:**<br>**Daw canfyddiadau'r astudiaeth ar y potensial o ddyrannu ardaloedd chwilio ar gyfer ffermydd PV solar i gasgliad bod yna ardaloedd posib y dylid eu nodi yn y Cynllun. Mewn perthynas â datblygiadau ffermydd gwynt, oherwydd materion capasiti a sensitifrwydd y dirwedd, casglwyd na ddylid dyrannu unrhyw ardaloedd posib fel ardaloedd chwilio.** |

| Rhan Berthnasol y Cynllun Adnau | Addasiad a Awgrymir | Dengys yr Addasiad mewn Coch |
|---|---|---|
| | | |
| Polisi Newydd | Cyflwyno polisi newydd ADN1A ac Esboniad ar gyfer ffermydd PV solar a thestun esboniadol cysylltiedig. Mae hyn yn amlinellu'r ystyriaethau gyda'r fath ddatblygiad ac yn dyrannu ardaloedd chwilio mewn perthynas â'r fath ddatblygiadau. | **POLISI ADN1A: FFERMYDD PV SOLAR**<br><br>**Dylai cynigion am Ffermydd PV Solar mwy na 0.5MW neu 1.2Ha gael eu cyfeirio tuag at ardaloedd posib a ddyrannwyd fel y dangosir ar y Map Cynigion. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol pan fydd angen am gynllun a ellir ei gyfiawnhau'n dderbyniol neu pan fo amgylchiadau lleoliadol penodol am leoli datblygiad, fydd datblygiadau mewn ardaloedd eraill yn cael eu cefnogi.**<br><br>**Dylai pob cynnig gydymffurfio gyda'r meini prawf isod:**<br><br>• **Ni fydd y cynnig yn cael effaith annerbyniol ar fwynderau gweledol neu gymeriad y dirwedd drwy: nifer, graddfa, maint, dyluniad a gosodiad paneli PV solar ac isadeiledd cysylltiedig yn enwedig mewn ardaloedd neu osodiad ardaloedd sydd wedi'u dynodi oherwydd eu gwerth hanesyddol neu werth y dirwedd;**<br>• **Ni fydd y cynnig yn arwain at niwed amlwg i fioamrywiaeth yn cynnwys safleoedd a rhywogaethau wedi'u gwarchod yn statudol;**<br>• **Ni fydd y cynnig yn arwain at niwed sylweddol i ddiogelwch neu fwynderau derbynyddion sensitif yn cynnwys effaith gan fflachio a llachareddd ac ni fydd yn cael effaith annerbyniol ar ddiogelwch ffyrdd, rheilffyrdd nac awyrennau;**<br>• **Ni fydd y cynnig yn arwain at niwed sylweddol i fwynderau gweledol preswyl trigolion cyfagos;**<br>• **Ni fydd y cynnig yn cael effeithiau cronnus annerbyniol mewn perthynas â ffermydd PV solar, y rhai sydd wedi'u gweithredu a'r rhai sydd â chaniatâd, ac unrhyw nodweddion amlwg eraill yn y dirwedd;**<br>• **Ar ddiwedd oes weithredol y cyfleuster, bydd y paneli a'r isadeiledd** |

<table>
<tr><th>Rhan Berthnasol y Cynllun Adnau</th><th>Addasiad a Awgrymir</th><th>Dengys yr Addasiad mewn Coch</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td>cysylltiedig yn cael eu tynnu i lawr a chytunir ar gynllun adfer tir ac ôl-ofal priodol.<br>• Bod Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CRhAA) yn cael ei gyflwyno i ddangos bod unrhyw effeithiau negyddol posib a gyfyd yn ystod y cyfnodau adeiladu a dadgomisiynu yn cael eu hosgoi.<br><br>Esboniad:<br><br>7.2.38A Comisiynwyd yr Astudiaeth ar y potensial am ffermydd PV solar mewn Ardaloedd Cynllunio yng Ngwynedd ac Ynys Môn i adnabod ardaloedd chwilio posib ar gyfer datblygiadau ffermydd solar. Roedd yn seiliedig ar y fethodoleg a amlinellir yn Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel – Llawlyfr i Gynllunwyr (2015) gan Lywodraeth Cymru.<br><br>7.2.38B Yn seiliedig ar asesiad lefel strategol, nododd ardaloedd posib y dylid eu dyrannu fel ardaloedd chwilio ar gyfer y fath ddatblygiadau. Nodd yr astudiaeth 37 llain o dir ar wahân gyda'r potensial am ddatblygiad, 4 o'r gwerth uchaf gyda'r 33 arall yn amodol ar gyfyngiad grid ar hyn o bryd. Mae’r tabl isod yn nodi'r ardaloedd hyn:<br><br>Tabl 14A : Ardaloedd Posib o'r Gwerth Uchaf<br><table><tr><th>Rhif y Safle</th><th>Rhif y Dynodiad</th><th>Lleoliad y Safle (Anheddiad Agosaf)</th><th>Cyfanswm Arwynebedd y Safle (Ha)</th></tr><tr><td>35</td><td>S1</td><td>Bangor</td><td>5.7</td></tr><tr><td>5</td><td>S2</td><td>Rhoslan</td><td>117.3</td></tr><tr><td>7</td><td>S3</td><td>Rhoslan</td><td>90.9</td></tr><tr><td>84</td><td>S4</td><td>Rhoslan</td><td>1.5</td></tr></table></td></tr>
</table>

<table>
<tr><th>Rhan Berthnasol y Cynllun Adnau</th><th>Addasiad a Awgrymir</th><th>Dengys yr Addasiad mewn Coch</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td>Tabl 14A : Ardaloedd Posib Eraill
<table>
<tr><th>Rhif y Safle</th><th>Rhif y Dynodiad</th><th>Lleoliad y Safle</th><th>Cyfanswm Arwynebedd y Safle (Ha)</th></tr>
<tr><td>9</td><td>S5</td><td>Llanddona</td><td>72.0</td></tr>
<tr><td>50</td><td>S6</td><td>Llanddona</td><td>4.4</td></tr>
<tr><td>20</td><td>S7</td><td>Llandegfan</td><td>22.3</td></tr>
<tr><td>51</td><td>S8</td><td>Llanfairpwll</td><td>5.1</td></tr>
<tr><td>52</td><td>S9</td><td>Llanfairpwll</td><td>3.5</td></tr>
<tr><td>22</td><td>S10</td><td>Llanfairpwll</td><td>14.7</td></tr>
<tr><td>2</td><td>S11</td><td>Gaerwen</td><td>137.6</td></tr>
<tr><td>32</td><td>S12</td><td>Gaerwen</td><td>6.5</td></tr>
<tr><td>53</td><td>S13</td><td>Llangefni</td><td>2.8</td></tr>
<tr><td>26</td><td>S14</td><td>Llangefni</td><td>14.4</td></tr>
<tr><td>57</td><td>S15</td><td>Llangefni</td><td>4.2</td></tr>
<tr><td>42</td><td>S16</td><td>Pentraeth</td><td>5.7</td></tr>
<tr><td>56</td><td>S17</td><td>Pentraeth</td><td>4.4</td></tr>
<tr><td>28</td><td>S18</td><td>Pentraeth</td><td>13.2</td></tr>
<tr><td>16</td><td>S19</td><td>Pentraeth</td><td>27.0</td></tr>
<tr><td>37</td><td>S20</td><td>Pentraeth</td><td>7.4</td></tr>
<tr><td>4</td><td>S21</td><td>Gwalchmai</td><td>54.9</td></tr>
<tr><td>10</td><td>S22</td><td>Gwalchmai</td><td>44.1</td></tr>
<tr><td>6</td><td>S23</td><td>Llanddeusant</td><td>126.7</td></tr>
<tr><td>19</td><td>S24</td><td>Llanddeusant</td><td>19.3</td></tr>
<tr><td>39</td><td>S25</td><td>Caergeiliog</td><td>6.4</td></tr>
<tr><td>3</td><td>S26</td><td>Caergeiliog</td><td>115.0</td></tr>
<tr><td>27</td><td>S27</td><td>Caergeiliog</td><td>12.3</td></tr>
<tr><td>34</td><td>S28</td><td>Caergeiliog</td><td>7.4</td></tr>
</table>
</td></tr>
</table>

| Rhan Berthnasol y Cynllun Adnau | Addasiad a Awgrymir | Dengys yr Addasiad mewn Coch |
|---|---|---|
| | | (see nested table below) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 45 | S29 | Caergeiliog | 4.0 |
| 47 | S30 | Caergeiliog | 5.0 |
| 58 | S31 | Caergeiliog | 4.1 |
| 59 | S32 | Caergeiliog | 2.3 |
| 23 | S33 | Bangor | 16.3 |
| 60 | S34 | Bangor | 2.8 |
| 61 | S35 | Bangor | 4.0 |
| 62 | S36 | Bangor | 2.6 |

7.2.38C Mae'n bwysig nodi nad yw adnabod ardaloedd addas ar gyfer ffermydd PV solar yn darparu datganiad swyddogol o addasrwydd lleoliad penodol ar gyfer PV solar. Byddai angen asesiad penodol ar gyfer y safle a dyluniad o hyd a byddai angen i bob cais gael ei asesu ar ei rinweddau unigol.

7.2.38CH Mae'r fethodoleg ar gyfer asesu ardaloedd posib wedi osgoi ardaloedd sy'n amodol ar gyfyngiad amgylcheddol neu dreftadaeth; fodd bynnag, dylid ystyried unrhyw effaith sylweddol wrth osod y fath gyfyngiadau.

7.2.38D Mae rhai o'r ardaloedd posib yn cynnwys ardal fawr ac yn amgylchynu ambell eiddo preswyl. O ganlyniad, rhoddir ystyriaeth ofalus i effaith cynnig ar fwynderau defnyddwyr cyfagos a'r effaith gronnus o sawl cynnig yn yr un ardal.

7.2.38DD Efallai y bydd adlewyrchiad uniongyrchol dwys posib yr haul yn tynnu sylw gwylwyr, dylid rhoi ystyriaeth i eiddo sy'n uwch ar lethr. Os fydd y paneli yn tracio symudiad yr haul neu'n cael eu hail-alinio â llaw bob ychydig fisoedd, dylai effaith hynny hefyd gael ei ystyried.

7.2.38E Mae effaith weledol cynnig yn ystyriaeth bwysig e.e. colli nodweddion y dirwedd

| Rhan Berthnasol y Cynllun Adnau | Addasiad a Awgrymir | Dengys yr Addasiad mewn Coch |
|---|---|---|
| | | megis coed a gwrychoedd neu gyfuchliniau wrth lefelu'r safle, gallai uchder y paneli guddio patrymau caeau a p'un a oes angen ffens ddiogelwch, camerâu TCC a goleuadau diogelwch cysylltiedig.<br><br>7.2.38F Comisiynwyd Astudiaeth Capasiti a Sensitifrwydd y Dirwedd yn Ynys Môn, Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri i reoli datblygiadau megis datblygiadau ynni PV solar mewn caeau drwy adnabod a gwarchod ardaloedd sensitif ac arbennig rhag datblygiadau amhriodol.<br><br>7.2.38FF Mae capasiti dangosol y dirwedd yn yr Astudiaeth Capasiti a Sensitifrwydd yn gymorth i adnabod y math o ddatblygiadau y gellid eu cynnwys o bosib, fodd bynnag, nid yw hyn ynddo'i hun yn awgrymu y bydd ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau yn yr ardaloedd hyn yn briodol. Bydd angen ystyried elfennau newidiol eraill megis dynodiadau amgylcheddol a chyfyngiadau technegol, lleoliad, gosodiad a dyluniad penodol ar sail pob achos unigol.<br><br>7.2.38G Mae'r Astudiaeth Capasiti a Sensitifrwydd yn creu nodiadau canllaw penodol ar gyfer pob un math o ddatblygiad er mwyn cynorthwyo i gyfeirio unrhyw ddatblygiad arfaethedig i'r lleoliad mwyaf priodol o ran y dirwedd a'r elfennau gweledol o fewn pob Ardal Cymeriad y Dirwedd (ACD).<br><br>7.2.38NG Dylid ystyried yr Astudiaeth Capasiti a Sensitifrwydd mewn perthynas â graddfa posib y datblygiad y gellid ei gynnwys yn y gwahanol Ardaloedd Cymeriad y Dirwedd.<br><br>7.2.38H Ceir potensial am effeithiau byrdymor yn ystod y cyfnodau adeiladu a dadgomsiynu. Dylai Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) sicrhau bod |

| Rhan Berthnasol y Cynllun Adnau | Addasiad a Awgrymir | Dengys yr Addasiad mewn <u>Coch</u> |
|---|---|---|
| | | <u>unrhyw effeithiau negyddol posib a gyfyd yn ystod y cyfnodau adeiladu a dadgomisiynu yn cael eu hosgoi.</u> |
| Polisi ADN2 | Yn wyneb y canfyddiadau mewn perthynas â ffermydd PV solar, awgrymir bod polisi ychwanegol yn cael ei baratoi mewn perthynas â datblygiadau ar raddfa ffermydd PV solar. O ganlyniad, mae angen addasu polisi ADN2 i adlewyrchu'r ffaith nad yw bellach yn berthnasol ar gyfer y math hwn o ddatblygiad. | **POLISI ADN 2: TECHNOLEG YNNI ADNEWYDDADWY ARALL**<br><br>**Caniateir cynigion ar gyfer technolegau ynni adnewyddadwy heb fod yn ynni gwynt <u>neu yn ffermydd Solar PV</u> o fewn ffiniau datblygu os nad ydynt yn achosi ardrawiad annerbyniol i gymeriad a mwynderau'r ardal.**<br><br>**Bydd yn ofynnol i gynigion ar raddfa fechan y tu allan i ffiniau datblygu gyfiawnhau'r angen am eu lleoli yn y fath leoliad.**<br><br>**Caniateir cynigion ar raddfa fawr y tu allan i ffiniau datblygu mewn amgylchiadau eithriadol ble mae angen holl bwysig am y cynllun ac y gallir ei gyfiawnhau'n dderbyniol neu pan fo amgylchiadau lleoliadol penodol am leoli'r datblygiad.**<br><br>**Ym mhob achos, ni ddylai datblygiad beri difrod annerbyniol i'r tirlun, bioamrywiaeth, archeoleg ac ardaloedd o werth hanesyddol na'u gosodiadau. Yn ogystal, dylid ystyried y posibilrwydd o ardrawiad cronnus technolegau ynni adnewyddadwy.** |
| Paragraff 7.2.39 | Dylid addasu'r paragraff hwn i egluro pa fath o geisiadau solar sy'n cael eu cynnwys yn y polisi penodol hwn a pha fath y dylid ymdrin â hwy dan bolisi newydd ADN3. | 7.2.39 Mae'r polisi hwn yn cynnwys amrediad o dechnolegau ynni adnewyddadwy, gan gynnwys: solar <u>raddfa domestig</u>, biomas, pympiau gwres o'r ddaear, pŵer trydan dŵr, Gwres a Phŵer Cyfunedig. Nid yw'r polisi hwn yn cynnwys ffermydd gwynt/tyrbinau ar y tir sy'n cael eu cynnwys ym mholisi ADN1 <u>neu ffermydd solar PV sy'n cael eu cynnwys ym mholisi ADN1A.</u> |
| Paragraffau 7.2.45 i 7.2.48 | Mae'r paragraffau hyn yn cyfeirio at yr Astudiaeth Capasiti a Sensitifrwydd y Dirwedd mewn perthynas â datblygiadau ynni PV solar. Yn sgil hyn, dylid eu symud o'r Esboniad i bolisi | <u>Tynnu paragraffau 7.2.45 i 7.2.48 o'r esboniad i Bolisi ADN2:</u><br>~~7.2.45 Comisiynwyd Astudiaeth Capasiti a Sensitifrwydd y Dirwedd yn Ynys Môn, Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri i reoli datblygiadau megis datblygiadau ynni PV solar mewn caeau drwy adnabod a gwarchod ardaloedd sensitif ac arbennig rhag datblygiadau amhriodol.~~ |

| Rhan Berthnasol y Cynllun Adnau | Addasiad a Awgrymir | Dengys yr Addasiad mewn Coch |
|---|---|---|
| | ADN2 a'u cynnwys yn hytrach yn yr Esboniad ar gyfer polisi ADN3. | ~~7.2.46 Mae capasiti dangosol y dirwedd yn yr Astudiaeth Capasiti a Sensitifrwydd yn gymorth i adnabod y math o ddatblygiadau y gellid eu cynnwys o bosib, fodd bynnag, nid yw hyn ynddo'i hun yn awgrymu y bydd ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau yn yr ardaloedd hyn yn briodol. Bydd angen ystyried elfennau newidiol eraill megis dynodiadau amgylcheddol a chyfyngiadau technegol, lleoliad, gosodiad a dyluniad penodol ar sail pob achos unigol.~~<br><br>~~7.2.47 Mae'r Astudiaeth Capasiti a Sensitifrwydd yn creu nodiadau canllaw penodol ar gyfer pob un math o ddatblygiad er mwyn cynorthwyo i gyfeirio unrhyw ddatblygiad arfaethedig i'r lleoliad mwyaf priodol o ran y dirwedd a'r elfennau gweledol o fewn pob Ardal Cymeriad y Dirwedd (ACD).~~<br><br>~~7.2.48 Dylid ystyried yr Astudiaeth Capasiti a Sensitifrwydd mewn perthynas â graddfa posib y datblygiad y gellid ei gynnwys yn y gwahanol Ardaloedd Cymeriad y Dirwedd.~~ |